

HOWELL, JOHN ('Ioan ab Hywel' neu 'Ioan Glandyfroedd'; 1774 - 1830), gwehydd, ysgolfeistr, bardd, golygydd, a cherddor

**Enw:** John Howell

**Ffugenw:** Ioan ab Hywel, Ioan Glandyfroedd

**Dyddiad geni:** 1774

**Dyddiad marw:** 1830

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** gwehydd, ysgolfeistr, bardd, golygydd, a cherddor

**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Cerddoriaeth; Barddoniaeth; Argraffu a Chyhoeddi

**Awdur:** William Llewelyn Davies

Ganwyd yn Abergwili, Sir Gaerfyrddin. Ychydig o addysg a gafodd. Prentisiwyd ef yn wehydd, a gweithiodd wrth y grefft honno am rai blynyddoedd. Oherwydd ei ddawn gerddorol cafodd fynd yn aelod o seindorf cartreflu Caerfyrddin, a gwnaethpwyd ef yn bennaeth 'fife-band' y gatrawd. Yn ystod ei oriau hamdden dechreuodd gasglu gwybodaeth, a dangos diddordeb arbennig mewn barddoniaeth a rhifyddiaeth. Bu gyda'r llu arfog yn lwerddon, a phan ddaeth yn ôl penodwyd ef yn bennaeth Ysgol Genedlaethol Llanymddyfri, lle y treuliodd weddill ei oes. Ei wasanaeth pennaf fel cerddor oedd mynd oddi amgylch i'r eglwysi i ddysgu i'r cantorion ganu'r salmau. Cydymgeisiodd â [Walter Davies](#) ('Gwallter Mechain') yn eisteddfod Caerfyrddin, 1819. Cystadlodd hefyd ar destun yr awdl yn eisteddfod Aberhonddu, 1822. Fe'i coffeir yn bennaf, fodd bynnag, fel cynullydd *Blodau Dyfed; sef, Awdlau, Cywyddau, Englynion, a Chaniadau, Moesol a Diddanol, a Gyfansoddwyd gan Feirdd Dyfed ...* (Caerfyrddin, 1824), gwaith sydd yn enghraifft dda o flodeugerdd daleithiol ac yn un o lyfrau-defnyddiau haneswyr llenyddiaeth ac eisteddfodau taleithiol Cymru. Heblaw esiamplau o waith y golygydd ei hun (rhai ohonynt wedi eu hysgrifennu ar gyfer eisteddfodau Caerfyrddin, Aberhonddu, etc.), ceir yn y gyfrol ddetholiad o waith barddonol [Evan Evans](#) ('Prydydd Hir'), [Jenkin Thomas](#), Cwmdu, Ceredigion, [Eliezer Williams](#), [Daniel Evans](#) ('Daniel Ddu o Geredigion'), [James Davies](#) ('Iago ab Dewi'), [D. Rowland](#), Caerfyrddin, [Edward Richard](#), Ystradmeurig, [D. Llwyd](#), Llwynrhydowen, [D. Jones](#), Llanwrda, [Evan Thomas](#), Llanarth, [John Jenkins](#) ('Ioan Siengcyn'), Aberteifi, [Ffransis Thomas](#) ('y Crythwr Dall o Geredigion'), [Ifan Gruffydd](#), Twrgwyn, ac eraill. Cafodd rai o ddefnyddiau'r gwaith yn N.L.W. MS. 19. Efallai mai ef ydyw'r 'Ioan ab Hywel' y ceir peth o'i waith yn N.L.W. MS. 1238 (un o lawysgrifau '[Twm o'r Nant](#)'). Bu farw 18 Tachwedd 1830, a chladdwyd ef ym mynwent Llandingad, Llanymddyfri.

## Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

## Ffynonellau

*Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru* (1870), 492-3

Edward Jones, *Rhestr gyda nodiadau byrion, o Enwogion Cymreig o 1700 i 1900* (1908)

*Seren Gomer*, 1830

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

Charles Ashton, *Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850* (1893)

H. B. Thomas, *Trem ar y Ganrif sef, adolwg ar y bedwaredd ganrif ar bymtheg, parthed crefydd, gwleidyddiaeth, addysg, barddoniaeth, caniadaeth gynulleidfaol, a llenyddiaeth* (Dolgellau 1902)

## Gweithiau

William Thomas, [Canmoliaeth merch, a chwynfan ei chywir garwr](#), 'Yr awen lawen; sef, Casgliad o ganiadau dewisol' (Caerfyrddin 1851), tt.43-45

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [92841663](#)

Wikidata: [Q18671846](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

